

Heddlu Gogledd Cymru – effeithiolrwydd

Trosolwg – Pa mor dda mae'r heddlu yn cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

Dyfarniad cyffredinol



Angen gwelliant

Ar y cyfan mae Heddlu Gogledd Cymru wedi ei farnu i fod angen gwelliant o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu. Mae'r heddlu yn dda o ran atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fodd bynnag, parthed sut mae'r heddlu'n ymchwilio i droseddau, mae rheolaeth troseddswyr yn anghyson ac weithiau mae swyddogion yn cael eu penodi i ymchwilio troseddau sydd tu hwnt i'w lefel hyfforddiant. Hefyd, byddai asesiad mwy cywir o risg pan fydd pobl yn cysylltu â'r heddlu gyntaf yn sicrhau y darperir gwell gwasanaeth i ddiodefwyr. Mae'r heddlu'n taclo troseddau difrifol a chyfundrefnol yn effeithiol mewn sawl agwedd, er bod cwrpas ar gyfer gwelliant mewn rhai meysydd penodol. Dyma'r flwyddyn gyntaf i HMIC raddio heddluoedd ar eu heffeithiolrwydd cyffredinol, felly nid yw cymhariaeth blwyddyn ar flwyddyn yn bosibl.

Crynodeb

Ar y cyfan mae Heddlu Gogledd Cymru wedi ei farnu i fod angen gwelliant o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu.

Mae'r flaenoriaeth i atal troseddu ac i gadw pobl yn ddiogel wedi ei deall yn gyffredinol ar draws yr heddlu. Mae'r heddlu'n gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i gyflawni'r nodau hyn; mae Canolfan Gofal Dioddefwyr Heddlu Gogledd Cymru, sy'n dod â phartneriaid ynghyd i ddarparu lefel well o gefnogaeth i ddiodefwyr, yn enghraifft dda.

Mae angen rhai mân welliannau o ran sut mae Heddlu Gogledd Cymru yn asesu effaith tactegau a ddefnyddir i daclo troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; fodd bynnag mae'r heddlu'n defnyddio ystod eang o ymyraethau i ddatrys problemau lleol ac mae wedi ei gefnogi'n dda gan ddarparwyr gwasanaeth partner.

Mae yna ddiffygion i ymagwedd Heddlu Gogledd Cymru i ymchwilio i droseddau. Nid yw polisi'r heddlu ar gyfer neilltuo troseddau i ymchwilyr wedi ei ddeall yn glir gan y

gweithlu. Yn ogystal, gwelsom enghreifftiau o swyddogion rheng flaen yn cyflawni ymchwiliadau oedd y tu hwnt i lefel eu hyfforddiant a phrofiad, yn cynnwys achosion cam-drin domestig risg uchel. Mae hyn yn golygu y gallai'r gwasanaeth i ddioddefwyr fod yn brin o'r safon ofynnol.

Yn ogystal, mae gan y cynllun rheoli troseddwy'r integredig, sy'n rheoli troseddwy'r cyson, nifer o broblemau sy'n cyfyngu ar ei effeithiolrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys ansicrwydd o ran pa droseddwy'r i'w cynnwys yn y cynllun, cefnogaeth dameidiog gan sefydliadau partner a diffyg cynlluniau personol ar gyfer pob cleient.

Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a chadw pobl yn ddiogel?

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn dda ar atal troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chadw pobl yn ddiogel. Mae'r blaenoriaethau hyn yn ymhlyg yng nghynllun yr heddlu a throseddu, mae'r gweithlu yn eu deall yn dda ac maent wedi eu trosi'n rheolaidd i weithgaredd gweithredol.

Mae grŵp y prif swyddog yn arwain yr ymgyrch 'Mae'n Bwysig' sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd proffesiynoldeb, ansawdd gwasanaeth a ffocws ar y dioddefwr. Mae'r heddlu'n fedrus o ran alinio adnoddau i batrymau troseddau gyda chysylltiadau cryf gyda darparwyr gwasanaeth eraill i sicrhau fod ystod eang o dactegau ar gael i ddelio â throseddu.

Gwelsom dystiolaeth o weithlu brwdfrydig a phrofiadol yn gweithio gydag eraill i ddarparu gwell gwasanaeth. Enghraifft dda yw Canolfan Gofal Dioddefwyr Heddlu Gogledd Cymru; mae'r Ganolfan yn uno nifer o bartneriaid cyfiawnder troseddol i ddarparu lefel uwch o gefnogaeth i ddioddefwyr.

Ceir rhai meysydd ble gellid gwneud mwy; er enghraifft, mae enghreifftiau o 'blismona seiliedig ar dystiolaeth', sicrwydd fod tactegau'r heddlu wedi eu gwerthuso fel rhai effeithiol, yn gyfyngedig.

Fodd bynnag, mae'r heddlu'n arwain yn bendant o ran hyrwyddo buddion cydweithio. Gwelsom enghreifftiau o hyn ar lefelau rhanbarthol, sirol a chymdogaeth sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gymunedau yng Ngogledd Cymru.



Da

Meysydd i'w gwella

- Dylai'r heddlu ddefnyddio tystiolaeth o 'beth sy'n gweithio' o waith heddluoedd eraill, academyddion a phartneriaid i wella'n barhaus ei ymagwedd i atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae angen cynnal gwerthusiad rheolaidd o dactegau a rhannu ymarfer effeithiol.

Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran ymchwilio i droseddau a rheoli troseddwr?

Mae ymagwedd Heddlu Gogledd Cymru i ymchwilio i droseddau angen gwelliant.

Heb os, mae'r gweithlu yn arddangos ymroddiad i ddiodefwr ac mae rhai enghreifftiau o arfer ymchwilio da, ond mae'r heddlu angen gwella ei ddyraniad ar gyfer ymchwilio troseddau a rheoli troseddwr.

Nid yw'r gallu i nodi bregusrwydd ar y pwynt cyswllt cyntaf wedi ei sicrhau. Yn ogystal, nid oes gan yr heddlu bolisi systematig i neilltuo troseddau ar gyfer ymchwiliad yn seiliedig ar fregusrwydd y diodefwr. Gallai'r diffygion hyn olygu nad yw'r heddlu yn blaenoriaethu ei ymateb i ddiodefwr yn ddigonol ac mae'r gwasanaeth a ddarperir yn brin o'r safonau gofynnol.

Unwaith y bydd troseddau wedi eu dyrannu i ymchwilyr, mae'r heddlu'n cynnal ymchwiliadau'n dda ac mae goruchwyliaeth yn dda gan amlaf. Mae hyn yn cynrychioli gwelliant ers archwilio'r maes hwn ddiweddfaf yn archwiliadau troseddau HMIC yn 2014.

Fodd bynnag, mae swyddogion heb yr hyfforddiant gofynnol yn ymchwilio i rai troseddau cymhleth a throseddau rhyw. Mae pryder tebyg yn codi pan mae'r heddlu yn neilltuo diodefwr gyda risg uchel o gam-drin domestig i ymchwilyr heb y sgiliau perthnasol.

Mae'r heddlu'n rheoli troseddwr rhyw ar y gofrestr yn dda, ond mynegodd y staff y siaradom ni â nhw bryder am eu llwyth gwaith unigol.



Angen gwelliant

Meysydd i'w gwella

- Dylai'r heddlu sicrhau fod yr holl droseddau yn cael eu neilltuo'n brydlon i ymchwilyr gyda'r sgiliau, achrediad a chefnogaeth priodol i'w ymchwilio i safon dda.
- Dylai'r heddlu sicrhau y darperir y rhai sy'n cyflawni ymchwiliadau gyda'r hyfforddiant a chefnogaeth briodol.
- Dylai'r heddlu weithio gyda sefydliadau partner i ddatblygu ei ymagwedd i reoli troseddau integredig yn unol ag egwyddorion IOM y Swyddfa Gartref.

Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran diogelu rhag niwed y rhai sy'n fregus, a chefnogi dioddefwyr?

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru foeseg gwaith gref i ddiogelu pobl fregus; ceir arweinyddiaeth glir o frig y sefydliad; mae'n bendant ynghylch ei ddarpariaeth o wasanaethau rheng flaen ac mae sefydliadau partner yn ganmoliaethus o'i arweiniad o ran dod â gwasanaethau cyhoeddus ynghyd.

Canfu HMIC y cafwyd cynnydd ers y tro diwethaf i ni archwilio cam-drin domestig yng Ngogledd Cymru. Mae swyddogion ymateb rheng flaen yn cyflawni asesiadau risg gyda mwy o gysondeb ac maent yn amodol i well goruchwyliaeth. Mae diogelu wedi dod yn fwy sicr wrth i swyddogion rheng flaen ddatblygu ymwybyddiaeth o sut i sicrhau cefnogaeth gan ddarparwyr gwasanaeth eraill; felly hefyd mae cynnydd yn y nifer o gynghorwyr domestig annibynnol yn golygu bod y gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr risg uchel yn well.

Mae dealltwriaeth o raddfa ac effaith cam-drin plant yn rhywiol yn datblygu ac mae cyflawniad gwasanaeth ar y cyd gyda Barnardo yn meithrin cefnogaeth gryfach i bobl ifanc dan risg.

Mae'r cynnydd hwn wedi ei lesteirio gan ddwy broblem barhaus a amlygwyd yn flaenorol gan HMIC: gallu'r heddlu i nodi bregusrwydd yn gywir ar y pwynt cyswllt cyntaf; a dyraniad yr heddlu o drosedd i'w ymchwilio mewn modd sy'n paru sgiliau a phrofiad yr ymchwilydd gyda bregusrwydd y dioddefwr. Golyga effaith y diffygion hyn bod HMIC ar y cyfan yn barnu bod perfformiad yr heddlu angen gwelliant.



Angen gwelliant

Meysydd i'w gwella

- Dylai'r heddlu wella ei ddynodiad ac asesiad o risg i bobl fregus ar y pwynt cyswllt cyntaf. Dylai wneud hyn trwy sicrhau bod staff sy'n gweithio yn ystafell reoli'r heddlu yn defnyddio prosesau cymeradwy'r heddlu yn gyson, gan eu bod wedi eu cynllunio i gefnogi asesiad o risg ynghyd â goruchwyliaeth effeithiol o wneud penderfyniadau.
- Dylai'r heddlu wella ymchwiliad achosion yn ymwneud â dioddefwyr bregus, yn benodol parthed achosion yn ymwneud â phlant dan risg o gam-fanteisio rhywiol a dioddefwyr cam-drin domestig, i sicrhau bod staff gyda sgiliau a phrofiad priodol yn cyflawni'r ymchwiliad.

Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran taclo troseddau difrifol a chyfundrefnol, gan gynnwys ei drefniadau ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau plismona cenedlaethol?

Dyma'r flwyddyn gyntaf i HMIC raddio heddluoedd ar eu heffeithiolrwydd o ran taclo troseddau difrifol a chyfundrefnol, gan gynnwys trefniadau heddlu ar gyfer sicrhau y gall gyflawni ei gyfrifoldebau plismona cenedlaethol, felly nid yw cymhariaeth blwyddyn ar flwyddyn yn bosibl.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn taclo troseddau difrifol a chyfundrefnol yn effeithiol mewn sawl agwedd, er bod cwmpas ar gyfer gwelliant mewn rhai meysydd penodol.

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru weithdrefnau sefydledig i'w alluogi i nodi a mapio grwpiau troseddau cyfundrefnol (OCGs). Mae byrddau troseddau difrifol a chyfundrefnol a gyflwynwyd yn ddiweddar wedi dechrau taclo gwella cydweithio. Fodd bynnag, nid yw graddfa'r bygythiadau sy'n codi, fel masnachu mewn pobl, wedi ei ddeall yn llawn eto.

Mae gan yr heddlu weithdrefnau i uchafu rheolaeth OCGs i'r uned troseddau cyfundrefnol rhanbarthol (ROCU) os bydd angen adnoddau arbenigol atodol. Fodd bynnag, mae'r heddlu angen gwneud mwy i sicrhau fod swyddogion a benodir i reoli OCGs risg is yn gyfarwydd â'u rolau a chyfrifoldebau. Dylai hefyd sicrhau fod timau plismona cymdogaeth yn cael eu cynnwys yn fwy rheolaidd mewn taclo OCGs.

Mae gan yr heddlu drefniadau boddhaol sydd ar waith i gyflawni ei gyfrifoldebau plismona cenedlaethol.



Da

Meysydd i'w gwella

- Dylai'r heddlu gwblhau ei broffil lleol troseddau cyfundrefnol gan gynnwys data perthnasol o sefydliadau partner, a sicrhau bod ganddo strwythur partneriaeth leol ar waith gyda chyfrifoldeb dros daclo troseddau difrifol a chyfundrefnol.